

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymgysylltiad â gwasanaethau gofal iechyd Canfyddiadau o arolwg o oedolion yng Nghymru a Lloegr



Kat Ford, Karen Hughes, Katie Cresswell, Rebekah Amos a Mark A Bellis

Kat Ford¹, Karen Hughes^{1,2}, Katie Cresswell¹, Rebekah Amos¹, Mark A Bellis^{1,2,3}

¹Uned Gydweithredu Iechyd y Cyhoedd
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Coleg Meddygaeth ac Iechyd
Prifysgol Bangor
Wrecsam
LL13 7YP

²Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Wrecsam
LL13 7YP

³Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais
Cyfadran Iechyd
Prifysgol John Moores Lerpwl
Lerpwl
L2 2ER

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r unigolion a fu mor garedig â chymryd rhan yn yr astudiaeth. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Flo Avery (Prifysgol Abertawe) a Dr Joanne Hopkins (Hwb ACE Cymru) am adolygiad cymheiriaid ac i gydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a Phrifysgol Bangor am eu cymorth gyda chynhyrchu'r adroddiad gan gynnwys Samia Addis a Natasha Judd am brawfddarllen. Yn olaf, hoffem ddiolch i Eirian Edmund am y cyfieithiad.

Ariannwyd yr astudiaeth hon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyfeirnod Grant: F010125). Ariennir swyddi KF a KC gan ICC, a chafodd RA ei hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Iechyd a Llesiant y Boblogaeth.

ISBN 978-1-83766-389-7

© 2024 Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid datgan cydnabyddiaeth i Brifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor.

1. Cefndir

Mae tystiolaeth sylweddol bod profiadau ein plentyndod yn dylanwadu ar ein hiechyd, llesiant ac ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae bod yn agored i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE; megis camdriniaeth plant neu dyfu i fyny mewn cartref â chamddefnyddio sylweddau) yn gysylltiedig â risgiau cynyddol ar gyfer ymddygiadau sy'n niweidio iechyd (ee ysmegu) a chanlyniadau iechyd corfforol a meddyliol negyddol [1]. Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifwyd bod baich ariannol blynyddol ACE ar draws ystod o risgiau iechyd (ee ysmegu) ac achosion afiechyd (ee canser) yn dod i gyfanswm o £42.8 biliwn [2]. Mae astudiaethau hefyd wedi nodi cysylltiadau rhwng ACE a mwy o ddefnydd o wasanaethau iechyd (ee defnydd uchel o Feddygon Teulu, wedi ymweld ag adran achosion brys yn y flwyddyn ddiwethaf [3–5]). Mae tystiolaeth, o'r tu allan i'r DU, hefyd yn dangos cysylltiadau rhwng dod i gysylltiad ag ACE a defnydd cynyddol o gyffuriau a ragnodwyd [6–9] a llai o ymgysylltiad â gofal iechyd ataliol (hy gwasanaethau i nodi materion iechyd cyn datblygu symptomau), megis sgrinio am ganser [10,11]. Ar ben hynny, yn y DU, mae ACE wedi bod yn gysylltiedig â phetruster brechu COVID-19 [12, 13]. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau rhwng ACE ac ymgysylltiad â gofal iechyd yn parhau heb eu harchwilio'n fanwl, yn enwedig yn y DU.

Mae'r profiad o gamdriniaeth plant yn gysylltiedig â lefelau uwch o ddiffyg ymddiriedaeth mewn eraill [14]. Yn yr un modd, mae ymchwil wedi nodi bod unigolion a oedd yn agored i ACE lluosog mewn mwy o berygl o ganfod gwasanaethau cyhoeddus yn llai cefnogol [15] a bod â llai o ymddiriedaeth mewn gweithwyr meddygol proffesiynol a gwasanaethau cyhoeddus [16, 17]. Canfuwyd hefyd bod unigolion sy'n agored i ACE lluosog yn adrodd am lai o ymddiriedaeth yng ngwybodaeth COVID-19 y GIG [12, 13]. Fodd bynnag, ychydig o astudiaethau sydd wedi archwilio'r cysylltiadau posibl rhwng dod i gysylltiad ag ACE a pherthynas â darparwyr gofal iechyd neu gysur wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd. Gall gwell dealltwriaeth o sut y gall ACE fod yn gysylltiedig ag ymgysylltiad â gofal iechyd a pherthynas â darparwyr gofal iechyd helpu i deilwra cymorth i unigolion sydd wedi profi adfyd yn ystod plentyndod. At hynny, gellir defnyddio gwybodaeth o'r fath i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd i gefnogi'r rhai ag ACE yn well. I ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ynghylch ACE a'u perthynas ag ymgysylltiad â'r gwasanaeth iechyd, mae'r astudiaeth beilot hon yn archwilio'r berthynas rhwng ACE a:

- y defnydd o feddyginiaeth
- ymgysylltiad â gofal iechyd ataliol
- perthnasoedd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys cysur wrth ddefnyddio lleoliadau iechyd.

Mae data o'r fath yn hanfodol i ddeall anghenion iechyd y boblogaeth ac ar gyfer datblygu ymatebion priodol.

2. Dulliau

Rhwng 2^{il} a 23^{ain} Mawrth 2022, llenwodd 1,832 o oedolion oedd yn byw yng Nghymru a Lloegr holiadur ar-lein am eu cysylltiad ag ACE yn ystod plentyndod a'u defnydd o wasanaethau iechyd. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o ddarparwr panel ar-lein ([Prolific](#); dolen yn agor mewn ffenestr newydd). Roedd yr astudiaeth yn agored i sampl cynrychioliadol (wedi'i haenu yn ôl oedran, rhyw ac ethnigrwydd) o aelodau panel cofrestredig 18 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru a Lloegr. Mae Atodiad 1 yn manylu ar fethodoleg lawn yr astudiaeth a dadansoddiad demograffig y cyfranogwyr. Dilëwyd ymatebion chwe deg pedwar o unigolion a fethodd gwiriadau sylw, a roddodd ymatebion anghyson neu ddyblyg neu a lenwodd yr arolwg yn rhannol yn unig. At ddiben yr adroddiad hwn, cafodd data eu heithrio hefyd ar gyfer unigolion oedd â data demograffig ar goll, neu na ellid dyrannu cyfrif ACE iddynt (nifer yr ACE a adroddwyd yn ystod plentyndod, n=72 gweler Adran 2.2). Felly, defnyddiwyd sampl terfynol o 1,696 o gyfranogwyr ar gyfer dadansoddiadau.

2.1 Holiadur yr astudiaeth

Datblygwyd holiadur yr astudiaeth gan y tîm ymchwil ac roedd cwestiynau'r arolwg yn cynnwys: demograffeg y cyfranogwyr (oedran, rhyw, ethnigrwydd, cod post a gwlad breswyl); amlygiad i naw math o ACE (wedi'i fesur gan ddefnyddio offeryn sefydledig [18]; gweler Atodiad 1); defnydd o feddyginiaeth (defnyddio gwrthfotigau yn y flwyddyn ddiwethaf, meddyginiaethau a ragnodwyd ac ymlyniad at feddyginiaeth); gofal iechyd ataliol (brechlynnau plentyndod a chael yswiriant iechyd pan yn teithio dramor); perthnasoedd a phrofiad gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (canfyddiadau bod gweithwyr proffesiynol yn gofalu am eu hiechyd a'u problemau ac yn eu deall, a phrofiad plentyndod gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol); a chysur wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd. Roedd pob mesur yn hunan-gofnodedig. Mae Atodiad 1 yn manylu ar y cwestiynau llawn ar gyfer data a ddadansoddiwyd yn yr astudiaeth hon.

2.2 Dadansoddi data

Gan gyfateb â llenyddiaeth ryngwladol [19], archwiliodd dadansoddiadau ACE gan ddefnyddio newidyn cyfrif a oedd yn categoreiddio cyfranogwyr yn seiliedig ar nifer yr ACE yr adroddwyd eu bod wedi'u profi (cyn 18 mlwydd oed; 0, 1, 2 i 3, 4 neu fwy). Troswyd y cod post preswyllo yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI; ardaloedd daearyddol â thua 1,600 o drigolion) i'w categoreiddio i'r cwinteli Mynegai Amddifadedd Lluosog (MALL) yng Nghymru a Lloegr [20, 21]. Lle'r oedd unigolion yn darparu codau post rhannol yn unig, dyrannwyd y MALL cyfartalog ar gyfer yr ACEHI a allai fod wedi cynnwys y cod post rhannol i'r rhain. Mae'r MALL yn fesur safonol ar gyfer cymharu amddifadedd rhwng ardaloedd bach. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhwng mynegeion Cymru a Lloegr. Oherwydd niferoedd bach mewn poblogaethau lleiafrifoedd ethnig, cafodd ethnigrwydd ei godio yn wyn a'r holl grwpiau ethnig eraill gyda'i gilydd, a elwir yma yn 'ac eithrio gwyn'. Gofynnwyd i gyfranogwyr hunan-ddatgelu eu rhyw (gwrywaidd, benywaidd, arall [nodwch]); oherwydd niferoedd bach yn y rhai a nododd eu bod yn 'arall', roedd dadansoddiad ar gyfer rhyw wedi'i gyfyngu i wrywaidd neu fenywaidd.

Gan fod yr astudiaeth beilot hon wedi defnyddio data ar gyfer trigolion Cymru a Lloegr, nid yw data mynychder ar gyfer canlyniadau wedi'u pwysoli ac felly, cyflwynir mynychder ACE a chanlyniadau'r astudiaeth ar gyfer y sampl derfynol lawn. Defnyddiwyd dadansoddiadau deunewidyn (chi-sgwâr) i archwilio cysylltiadau rhwng canlyniadau, demograffeg cyfranogwyr a chyfrif ACE. Yna archwiliwyd perthnasoedd annibynnol rhwng ACE a phob canlyniad o ddiddordeb gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli ar gyfer demograffeg gymdeithasol (oedran, rhyw, ethnigrwydd, cwintel MALL a gwlad breswyl). Defnyddiodd y dadansoddiad SPSS fersiwn 29.

2.2 Cyflwyno'r canlyniadau

Mae Adran 3 yn manylu ar y demograffeg sampl a mynychder ACE (ar draws cyfrif ACE ac ACE unigol). Mae adrannau dilynol yn archwilio'r pynciau a ganlyn a'u cysylltiad ag ACE: defnyddio meddyginiaeth (Adran 4), gofal iechyd ataliol (Adran 5), perthnasoedd â gweithwyr a systemau gofal iechyd proffesiynol (Adran 6), a chysur wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd (Adran 7).

3. Demograffeg y sampl

Mae Tabl 1 yn dangos demograffeg y sampl. Roedd dros hanner y sampl yn byw yn Lloegr (56.9%) a thros hanner (56.7%) yn adrodd rhyw fenywaidd. Roedd bron i chwech o bob deg rhwng 18 a 39 oed (57.2%) gyda 25.0% yn 50 oed a throsodd. Roedd dros draean yn byw mewn cartrefi yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig (35.8%), gyda phedwar o bob deg yn byw yn y ddau gwintel lleiaf difreintiedig (40.8%). Nododd y mwyafrif ethnigrwydd gwyn (83.8%).

Tabl 1: Demograffeg y sampl

		Nifer	Canran
Rhyw	Gwrywaidd	734	43.3
	Benywaidd	962	56.7
Grŵp oedran (blynyddoedd)		476	28.1
	18 i 29		
	30 i 39	493	29.1
	40 i 49	303	17.9
	50 i 59	227	13.4
	60 ac hŷn	197	11.6
Cwintel amddifadedd	1 (mwyaf difreintiedig)	216	12.7
	2	392	23.1
	3	395	23.3
	4	365	21.5
	5 (lleiaf difreintiedig)	328	19.3
Ethnigrwydd	Gwyn	1421	83.8
	Ac eithrio gwyn	275	16.2
Ardal yr astudiaeth	Lloegr	965	56.9
	Cymru	731	43.1


3.1 Mynychder ACE

Adroddodd tua dwy ran o dair (66.3%) o'r sampl eu bod wedi dod i gysylltiad ag o leiaf un ACE cyn 18 oed, gyda thua un o bob chwech (17.7%) yn adrodd eu bod wedi dod i gysylltiad â 4 neu fwy o fathau o ACE. Ar draws y naw ACE a fesurwyd, roedd mynychder ACE unigol yn amrywio o 3.5% ar gyfer carchariad aelod o'r cartref i 37.9% ar gyfer cam-drin geiriol (gweler Ffigur 1). Roedd mynycher arwyddocaol uwch o ACE ymhlith ymatebwyr oedd yn byw yng Nghymru o gymharu â'r rhai a oedd yn byw yn Lloegr (gweler Tabl 2 a Thabl 1 yr Atodiad).

Tabl 2: Cymharu cyfrif ACE ar draws ardaloedd yr astudiaeth


		Canran			
		0 ACE	1 ACE	2 i 3 ACE	4 ACE neu fwy
Lloegr		35.4	23.3	25.9	15.3
Cymru		31.3	21.2	26.7	20.8
	χ^2				10.014
	p				0.018

Ffigur 1. Mynychder yn y sampl o achosion o ACE unigol a chyfrif ACE



4. ACE a defnyddio meddyginiaeth

Ffigur 2. Cyfran sy'n adrodd am y defnydd o feddyginiaeth yn ôl cyfrif ACE a chymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)



Nodyn: ^sP<0.05.

4.1 Gwrthfotigau a ragnodwyd

Gofynnwyd i gyfranogwyr sawl gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf y rhagnodwyd gwrthfotigau iddynt. Roedd y rhai a adroddodd o leiaf unwaith yn cael eu codio fel rhai y rhagnodwyd gwrthfotigau iddynt.

Dywedodd chwarter y cyfranogwyr (25.0%) y rhagnodwyd gwrthfotigau iddynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Cynyddodd mynychder yr achosion o 21.0% o'r rhai â 0 ACE i 30.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 2). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd yn rheoli ar gyfer dryswyr demograffig (oed, rhyw, ethnigrwydd, cwintel MALL a gwlad breswyl; gweler Adran 2.2), roedd unigolion â 4 ACE neu fwy 1.5 gwaith yn fwy tebygol o adrodd y rhagnodwyd gwrthfotigau iddynt (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd arwyddocaol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE neu 2 i 3 ACE. Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng rhagnodi gwrthfotigau a bod yn fenywaidd ac yn iau (18 i 29 oed; Tabl A2 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.5 gwaith

yn fwy tebygol o fod wedi cael gwrthfotigau a ragnodwyd na'r rhai â 0 ACE

4.2 Cymryd meddyginiaethau a ragnodwyd ar hyn o bryd

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn cymryd unrhyw feddyginiaethau a ragnodwyd ar hyn o bryd. Cafodd y rhai a nododd feddyginiaethau a ragnodwyd ac eithrio cyffuriau atal cenhedlu a ragnodwyd a therapi amnewid hormonau (a gafodd eu heithrio gan mai menywod sy'n eu hadrodd yn bennaf) eu codio fel rhai oedd yn cymryd meddyginiaethau presgripsiwn.

Adroddodd pedwar o bob 10 o'r cyfranogwyr (41.5%) eu bod yn cymryd meddyginiaethau presgripsiwn ar hyn o bryd. Cynyddodd mynychder yr achosion o 39.1% o'r rhai â 0 ACE i 45.0% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 2). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd yn rheoli ar gyfer dryswyr demograffig, roedd unigolion â 4 ACE neu fwy 1.5 gwaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod ar hyn o bryd yn cymryd gwrthfotigau a ragnodwyd (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE.

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng cymryd meddyginiaethau a ragnodwyd ar hyn o bryd â bod yn fenywaidd, ethnigrwydd gwyn a grŵp oedran, gydag ods yn cynyddu wrth i oedran gynyddu (Tabl 2 yr Atodiad).

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd eu meddyginiaethau a ragnodwyd ar gyfer cyflyrau iechyd cronig neu afiechyd meddwl (ee cyffuriau gwrth-iselder). Mewn dadansoddiad deunewidyn, dim ond presgripsiynau ar gyfer afiechyd meddwl oedd yn gysylltiedig â chyfrif ACE.

Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd yn rheoli ar gyfer dryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE a 4 ACE neu fwy 1.6 a 2.1 gwaith yn fwy tebygol o adrodd y rhagnodwyd meddyginiaethau iddynt am afiechyd meddwl yn y drefn honno (o gymharu â'r rhai â 0 ACE; gweler Tabl 3 a Thabl A3 yr Atodiad). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE. Roedd unigolion â 2 i 3 ACE 1.4 gwaith yn fwy tebygol o fod â phresgripsiwn ar gyfer cyflwr iechyd cronig (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd cynnydd mewn risg yn sylweddol ar gyfer y rhai ag 1 ACE neu 4 ACE neu fwy.

Tabl 3. Cymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer meddyginiaethau a ragnodwyd mewn unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)

	Adroddodd 17% am bresgripsiwn ar gyfer afiechyd meddwl	Adroddodd 29% am bresgripsiwn ar gyfer cyflwr iechyd cronig
	AOR	AOR
1 ACE	1.1	1.3
2 i 3 ACE	1.6 ^s	1.4 ^s
4 ACE neu fwy	2.1 ^{ss}	1.3

Nodyn: ^sP<0.05, ^{ss}P<0.001.

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.5 gwaith

yn fwy tebygol o fod yn cymryd meddyginiaethau a ragnodwyd ar hyn o bryd na'r rhai â 0 ACE

4.3 Ymlyniad gwael at feddyginiaeth

Gofynnwyd i gyfranogwyr, wrth gymryd meddyginiaeth, a oeddent fel arfer yn ei gymryd yn union yn unol â'r cyfarwyddiadau. Roedd y rhai a ddywedodd nad oeddent bob amser yn ei gymryd yn union yn unol â'r cyfarwyddiadau wedi'u codio fel rhai ag ymlyniad gwael at feddyginiaeth.

Adroddodd dros un o bob pump o'r cyfranogwyr (22.1%) ymlyniad gwael at feddyginiaeth. Cynyddodd mynychder yr achosion o 17.3% o'r rhai â 0 ACE i 27.7% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 2). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd yn rheoli ar gyfer dryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE neu 4 ACE neu fwy 1.6 gwaith yn fwy tebygol o adrodd ymlyniad gwael at feddyginiaeth (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng ymlyniad gwael at feddyginiaeth ac oedran, gydag unigolion dros 60 oed yn lleiaf tebygol o adrodd nad oeddent bob amser yn cymryd meddyginiaeth yn union yn ôl y cyfarwyddiadau. Roedd y tebygolrwydd o adrodd am ymlyniad gwael at feddyginiaeth ar ei uchaf yn yr ail gwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â'r lleiaf difreintiedig (Tabl A2 yr Adroddiad).


Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.6 gwaith

yn fwy tebygol o fod ag ymlyniad gwael at feddyginiaeth na'r rhai â 0 ACE

5. ACE a gofal iechyd ataliol

Ffigur 3. Cyfran sy'n adrodd am ofal iechyd ataliol yn ôl cyfrif ACE a chymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)



Nodyn: ^sP<0.05.

5.1 Heb dderbyn yr holl frechiadau plentyndod

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent, hyd y gwyddant, wedi derbyn yr holl frechiadau arferol oedd ar gael iddynt fel plentyn. Cafodd y rhai a ddywedodd na a ddim yn gwybod eu codio fel rhai nad oeddent wedi cael eu holl frechiadau plentyndod (cafodd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gallu cael eu brechlyn oherwydd alergedd at wyau eu codio fel rhai a oedd wedi cael eu brechlynnau).

Adroddodd un o bob 20 o'r cyfranogwyr (5.5%) nad oeddent wedi cael eu holl frechiadau plentyndod. Cynyddodd mynychder yr achosion o 3.2% o'r rhai â 0 ACE i 7.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 3). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd yn rheoli ar gyfer dryswyr demograffig, roedd unigolion ag 1 ACE neu 2 i 3 ACE 2.2 gwaith yn fwy tebygol o adrodd nad oeddent wedi cael eu holl frechiadau plentyndod a'r rhai â 4 ACE neu fwy 2.4 gwaith yn fwy tebygol (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol rhwng derbyn brechiadau plentyndod a dryswyr demograffig eraill (Tabl A4 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

2.4 gwaith

yn fwy tebygol o fod heb gael pob brechiad plentyndod na'r rhai â 0 ACE

5.2 Weithiau/byth yn trefnu yswiriant iechyd wrth deithio dramor

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn sicrhau bod ganddynt yswiriant iechyd wrth deithio dramor. Roedd y rhai a ddywedodd eu bod weithiau neu byth yn trefnu yswiriant yn cael eu codio fel rhai oedd weithiau/byth yn trefnu yswiriant teithio.

O'r rhai a adroddodd eu bod wedi teithio dramor (n=1,492), dywedodd dros chwarter (28.1%) eu bod yn trefnu yswiriant teithio weithiau/byth pan yn teithio. Cynyddodd mynychder yr achosion o 24.5% o'r rhai â 0 ACE i 33.7% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 3). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 4 ACE neu fwy 1.5 gwaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn trefnu yswiriant teithio weithiau/byth (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE neu 2 i 3 ACE. Roedd trefnu yswiriant teithio weithiau/byth yn arwyddocaol gysylltiedig â bod yn wrywaidd, rhwng 18 a 29 oed, ethnigrwydd ac eithrio gwyn ac yn byw yn Lloegr (Tabl A4 yr Atodiad).


Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.5 gwaith

yn fwy tebygol o drefnu yswiriant teithio weithiau/byth na'r rhai â 0 ACE

6. ACE a pherthnasoedd gyda gweithwyr a systemau gofal iechyd proffesiynol

Ffigur 4. Cyfran sy'n adrodd am berthnasoedd gyda gweithwyr a systemau gofal iechyd proffesiynol yn ôl cyfrif ACE a chymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)



Nodyn: ^sP<0.05, ^{ss}P<0.001.

6.1 Canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn poeni am fy iechyd". Cafodd y rhai wnaeth ymateb anghytuno'n gryf neu anghytuno eu codio fel rhai oedd yn canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd.

Roedd bron i un o bob saith cyfranogwr (14.6%) yn teimlo nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd. Cynyddodd mynychder yr achosion o 8.6% o'r rhai â 0 ACE i 26.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 4). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 2.0 gwaith yn fwy tebygol o ganfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd ac roedd y rhai â 4 ACE neu fwy 3.6 gwaith yn fwy tebygol (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE. Roedd canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd hefyd yn gysylltiedig â bod yn fenywaidd a lefel amddifadedd, gyda risgiau'n uwch yn yr ail gwintel mwyaf

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy
3.6 gwaith
 yn fwy tebygol o ganfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd na'r rhai â 0 ACE

difreintiedig o gymharu â'r lleiaf difreintiedig. Roedd y risgiau ar eu hisaf ymhlith y rhai 50 i 59 oed o gymharu â'r rhai 18 i 29 (Tabl A5 yr Atodiad).

6.2 Canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo bod gweithwyr iechedd proffesiynol yn deall fy mhroblemau". Cafodd y rhai wnaeth ymateb anghytuno'n gryf neu anghytuno eu codio fel rhai oedd yn canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau.

Roedd bron i un o bob pump cyfranogwr (20.4%) yn teimlo nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau. Cynyddodd mynychder yr achosion o 11.4% o'r rhai â 0 ACE i 33.0% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 4). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion 1.5, 2.6 a 3.5 gwaith yn fwy tebygol o ganfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau pan oeddent yn adrodd am 1 ACE, 2 i 3 ACE neu 4 ACE neu fwy yn y drefn honno (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Roedd canfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau yn arwyddocaol gysylltiedig â bod yn fenyw. Roedd y risgiau ar eu hisaf ymhlith y rhai dros 50 oed o gymharu â'r rhai 18 i 29 oed (Tabl A5 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

3.5 gwaith

yn fwy tebygol o ganfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall eu problemau na'r rhai â 0 ACE.

6.3 Profiadau plentyndod gwael â gwasanaethau gofal iechedd

Gofynnwyd i gyfranogwyr raddio eu profiad plentyndod o wasanaethau iechedd gan ddefnyddio graddfa o 0 (arbennig o wael) i 10 (arbennig o dda). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â phrofiad plentyndod gwael gyda gwasanaethau iechedd.

O'r rhai a ryngweithiodd â gwasanaethau iechedd fel plentyn (n=1,682), dywedodd un o bob 20 (5.1%) eu bod wedi cael profiad gwael. Cynyddodd mynychder yr achosion o 2.4% o'r rhai ag 1 ACE i 8.8% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 4). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 3.0 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am brofiad plentyndod gwael gyda gwasanaethau iechedd, gyda'r rhai â 4 ACE neu fwy 3.4 gwaith yn fwy tebygol (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE. Er nad oedd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol cyffredinol â demograffeg eraill, roedd risgiau profiadau plentyndod gwael gyda gwasanaethau iechedd yn uwch ymhlith pobl ifanc 18 i 29 oed (Tabl A5 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

3.4 gwaith

yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau plentyndod gwael gyda gwasanaethau iechedd na'r rhai â 0 ACE

6.4 Profiadau plentyndod gwael â gwasanaethau cymdeithasol

Gofynnwyd i gyfranogwyr raddio eu profiad plentyndod o â gwasanaethau cymdeithasol gan ddefnyddio graddfa o 0 (arbennig o wael) i 10 (arbennig o dda). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â phrofiad plentyndod gwael gyda gwasanaethau cymdeithasol.

O'r rhai a ryngweithiodd â'r gwasanaethau cymdeithasol fel plentyn (n=450), dywedodd un o bob tri (32.0%) eu bod wedi cael profiad gwael. Cynyddodd mynychder yr achosion o 22.9% o'r rhai ag 1 ACE i 46.5% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 4). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 4 ACE neu fwy 2.8 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am brofiad plentyndod gwael gyda'r gwasanaethau cymdeithasol (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn risg yn y rhai ag 1 ACE neu 2 i 3 ACE. Nid oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng adrodd am brofiad plentyndod gwael gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a dryswyr demograffig eraill (Tabl A5 yr Atodiad).


Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

2.8 gwaith

yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau gwael yn ystod plentyndod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol na'r rhai â 0 ACE

7. ACE a chysur wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd

Ffigur 5. Cyfran sy'n adrodd am gysur wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd yn ôl cyfrif ACE a chymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)



Nodyn: ^sP<0.05, ^{ss}P<0.001.

7.1 Cysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd

Gofynnwyd i'r gyfranogwyr pa mor gysurus oeddent yn teimlo wrth ddefnyddio meddygfeydd gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd.

Adroddodd un o bob 20 (5.2%) o gyfranogwyr cysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd. Cynyddodd mynychder yr achosion o 3.3% o'r rhai â 0 ACE i 8.0% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 5). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 4 ACE neu fwy 2.5 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd y cynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 ACE a 2 i 3 ACE yn arwyddocaol. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng cysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd ac ethnigrwydd ac eithrio gwyn (Tabl A6 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy
2.5 gwaith
 yn fwy tebygol o brofi cysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd na'r rhai â 0 ACE

7.2 Cysur isel wrth ddefnyddio ysbytai

Gofynnwyd i'r gyfranogwyr pa mor gysurus oeddent yn teimlo wrth ddefnyddio ysbytai gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel wrth ddefnyddio ysbytai.

Dywedodd llai nag un o bob 10 (8.4%) o gyfranogwyr gysur isel wrth ddefnyddio ysbytai. Cynyddodd mynychder yr achosion o 6.1% o'r rhai â 0 neu 1 ACE i 13.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 5). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 1.6 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio ysbytai ac roedd y rhai â 4 ACE neu fwy 2.4 gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 ACE ac nid oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng cysur isel wrth ddefnyddio ysbytai a dryswyr demograffig eraill (Tabl A6 Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

2.4 gwaith

yn fwy tebygol o deimlo cysur isel wrth ddefnyddio meddygfeydd na'r rhai â 0 ACE

7.3 Cysur isel wrth ddefnyddio Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Gofynnwyd i gyfranogwyr pa mor gysurus oeddent yn teimlo wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys, gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys.


Adroddodd un o bob deg (10.9%) o gyfranogwyr gysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys. Cynyddodd mynychder yr achosion o 6.8% o'r rhai â 0 ACE i 18.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 5). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 2.0 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys ac roedd y rhai â 4 ACE neu fwy 2.9 gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd unrhyw gynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 ACE. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng cysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys a bod yn fenywaidd. Roedd y risg o gysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys ar ei uchaf ymhlith y rhai rhwng 18 a 29 oed (Tabl A6 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

2.9 gwaith

yn fwy tebygol o deimlo cysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys na'r rhai â 0 ACE

Ffigur 6. Cyfran sy'n adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd yn ôl cyfrif ACE a chymarebau ods wedi'u haddasu (AORs) ar gyfer unigolion ag ACE (o gymharu â dim ACE)



Nodyn: ^sP<0.05, ^{ss}P<0.001.

7.4 Cysur isel o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor gysurus yr oeddent yn teimlo o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol (ee meddyg teulu, bydwraig) gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel o ran cael ymweliadau cartref.

Adroddodd un o bob deg (9.6%) o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo cysur isel o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Cynyddodd mynychder yr achosion o 7.0% o'r rhai â 0 ACE i 11.7% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 6).

Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion ag 1 ACE 1.6 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol ac roedd y rhai â 4 ACE neu fwy 1.7 gwaith yn fwy tebygol (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd y cynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 neu 2 i 3 ACE yn arwyddocaol. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng cysur isel o ran cael ymweliadau cartref ac ethnigrwydd ac eithrio gwyn. Roedd y risg o gysur isel

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.7 gwaith

yn fwy tebygol o deimlo cysur isel o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol na'r rhai â 0 ACE

o ran cael ymweliadau cartref gan weithiwr iechyd proffesiynol ar ei uchaf ymhlith y rhai rhwng 18 a 29 oed (Tabl A7 yr Atodiad).

7.5 Cysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol sy'n darparu cymorth iechyd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor gysurus oeddent yn teimlo wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol sy'n darparu cymorth iechyd gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol.

Adroddodd o gwmpas un o bob saith (15.7%) o gyfranogwyr gysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol. Cynyddodd mynychder yr achosion o 11.7% o'r rhai â 0 ACE i 19.0% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 4). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 1.6 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol ac roedd y rhai â 4 ACE neu fwy 1.7 gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd y cynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 ACE yn arwyddocaol. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng cysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol a bod yn y grŵp oedran ieuengaf (18 i 29 oed; Tabl A7 yr Atodiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

1.7 gwaith

yn fwy tebygol o brofi cysur isel wrth ddefnyddio canolfannau cymunedol na'r rhai â 0 ACE

7.6 Cysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor gyfforddus oeddent yn teimlo wrth ddefnyddio deintyddfeydd gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 (yn llwyr). Cafodd y rhai a roddodd sgorau o 0 i 4 eu codio fel rhai â chysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd.

Adroddodd bron i un o bob deg (8.5%) o gyfranogwyr gysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd. Cynyddodd mynychder yr achosion o 5.3% o'r rhai â 0 ACE i 13.3% o'r rhai â 4 ACE neu fwy (Ffigur 6). Mewn dadansoddiad atchweliad logistaidd, gan reoli am ddryswyr demograffig, roedd unigolion â 2 i 3 ACE 1.9 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd â'r rhai â 4 ACE neu fwy 2.6 gwaith yn fwy tebygol o wneud felly (o gymharu â'r rhai â 0 ACE). Nid oedd y cynnydd mewn risg yn y rhai ag 1 ACE yn arwyddocaol. Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng cysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd a bod yn fenywaidd, yn iau ac yn byw yn Lloegr. Roedd y tebygolrwydd o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd hefyd ar ei uchaf yn yr ail gwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â'r lleiaf difreintiedig (Tabl A7 yr Adroddiad).

Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy

2.6 gwaith

yn fwy tebygol o brofi cysur isel wrth ddefnyddio deintyddfeydd na'r rhai â 0 ACE

8. Trafodaeth

Er gwaethaf corff cynyddol o ymchwil yn nodi perthnasoedd rhwng ACE a risgiau uwch o afiechyd a'r defnydd o ofal iechyd [3–5, 10, 22], prin yw'r dystiolaeth sy'n cysylltu ACE â'r defnydd o ofal iechyd, yn enwedig yn y DU. Mae'r astudiaeth beilot hon wedi datblygu rhagor o wybodaeth am y cysylltiadau rhwng bod â hanes o ACE a'r defnydd o ofal iechyd, ac mae wedi darparu data newydd ar y cysylltiadau rhwng ACE a'r berthynas â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Yn gyson ag ymchwil flaenorol, canfuom fod amlygiad uchel i ACE yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd o feddyginiaeth [8, 23]. Roedd unigolion â phedwar ACE neu fwy yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi cael gwrthfotigau wedi'u rhagnodi yn ystod y 12 mis diwethaf a'u bod yn defnyddio meddyginiaeth a ragnodwyd ar hyn o bryd. Gallai hyn adlewyrchu bod yn fwy agored i afiechyd ac o ganlyniad mwy o angen am driniaeth iechyd mewn unigolion â hanes o ACE. Yn benodol, canfuom fod cael dau ACE neu fwy yn gysylltiedig â'r defnydd presennol o feddyginiaeth a ragnodwyd ar gyfer afiechyd meddwl, gyda'r tebygolrwydd o adrodd am ragnodyn o'r fath yn cael ei ddyblu yn y rhai â phedwar ACE neu fwy. Mae hyn yn gyson â'r perthnasoedd cryf hysbys rhwng ACE a salwch meddwl [24]. Mae'r canfyddiadau hyn yn hybu ein dealltwriaeth o'r effaith y gall ACE ei chael ar batrymau anghyfartal o ddefnyddio meddyginiaeth.

Ochr yn ochr â chynnydd yn y defnydd o gyffuriau presgripsiwn, canfuom berthynas rhwng ACE ac ymlyniad at feddyginiaeth, gydag unigolion sydd â dau ACE neu fwy yn fwy tebygol o adrodd am ymlyniad gwael at feddyginiaeth. Er mwyn i feddyginiaeth weithio'n iawn ac i leihau'r posibilrwydd o sgil-ffeithiau negyddol o'i defnyddio, mae'n bwysig cadw at gyfarwyddiadau ar sut y dylid cymryd meddyginiaeth [25]. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y cysylltiadau rhwng ACE a'r defnydd o wrthfotigau a nodir yma. Mae camddefnydd o wrthfotigau mewn pobl yn ysgogydd hysbys o ymwrthedd i wrthfotigau (hy pan fydd bacteria yn dod yn ymwrthol i gyffuriau). Felly, mae asiantaethau iechyd yn fyd-eang wedi tynnu sylw at yr angen am gamau iechyd y cyhoedd i sicrhau bod gwrthfotigau'n cael eu defnyddio'n briodol [26, 27].

Mae'r berthynas rhwng ACE a brechiadau yn bwysig o ystyried y duedd ddiweddar yn y DU ar gyfer lefelau is o dderbyn brechiadau plentyndod arferol [28]. Canfuom fod unrhyw amlygiad i ACE hefyd yn gysylltiedig â pheidio â chael yr holl frechiadau plentyndod arferol. Er bod y canlyniad hwn yn dibynnu ar wybodaeth ac adalw unigolion o'u hanes brechu (gweler y cyfyngiadau isod), mae'n ychwanegu at lenyddiaeth gynyddol ar sut y gall ACE fod yn gysylltiedig â'r nifer sy'n cael eu brechu a goblygiadau posibl hyn ar gyfer iechyd cwrs bywyd. [1, 12, 29]. Canfu astudiaeth yn yr UD nad oedd perthynas rhwng hanes rhiant (mam neu dad) o ACE ac imiwneiddiadau wedi'u gohirio neu eu methu ar gyfer eu plant erbyn dwy flwydd oed. [30]. Fodd bynnag, dangoswyd bod cysylltiad rhwng amlygiad i ACE a phetruster brechu rhag COVID-19 mewn oedolion [12] a lefelau isel o frechu rhag y fflw, ond nid brechiadau feirws papiloma dynol gwenerol (HPV) mewn oedolion ifanc. Dylai ymchwil pellach archwilio'r cysylltiadau hyn rhwng amlygiad i ACE a'r defnydd o frechu yn ystod plentyndod mewn samplau mwy o faint a mwy cynrychioliadol.

Mae ymchwil yn yr Unol Daleithiau wedi dangos bod unigolion sy'n agored i ACE yn fwy tebygol o beidio â chael yswiriant iechyd [10, 22]. Yma, nodwyd perthynas hefyd rhwng amlygiad ACE uchel ac weithiau neu byth yn teithio dramor gydag yswiriant iechyd. Er na wnaeth yr arolwg gasglu gwybodaeth am amllder neu bwrpas teithio dramor gan y cyfranogwyr, gall y canfyddiad hwn fod yn arwydd o'r cysylltiad rhwng amlygiad uchel i ACE ac ymddygiadau cymryd risg [32].

Mae ymchwil blaenorol wedi dangos y gallai unigolion ag ACE lluosog ganfod gwasanaethau cyhoeddus yn llai cefnogol [15] a bod â llai o ymddiriedaeth mewn gweithwyr meddygol proffesiynol [16, 17]. Fodd bynnag, mae yna brinder astudiaethau sy'n archwilio perthnasoedd rhwng ACE a pherthnasoedd ehangach gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Canfuom fod unigolion ag ACE lluosog yn llawer mwy tebygol o ganfod nad yw gweithwyr proffesiynol yn poeni am eu hiechyd nac yn deall eu problemau, gyda'r tebygolrwydd y byddai'r ddau ganlyniad yn dyblu ymhlith y rhai â 2 i 3 ACE a threblu yn y rhai â phedwar ACE neu fwy (o gymharu â phobl heb unrhyw ACE). Roedd unigolion a oedd yn agored i ACE lluosog hefyd yn fwy tebygol o adrodd am brofiad plentyndod gwael gyda gwasanaethau iechyd. O ystyried y cysylltiad rhwng ACE a mwy o afiechyd a'r defnydd o ofal iechyd, mae'n hollbwysig bod pobl ag ACE yn rhyngweithio'n gadarnhaol â gwasanaethau gofal iechyd. Gallai gwella'r perthnasoedd hyn (e.e. trwy ddarparu gofal wedi'i lywio gan drawma; gweler isod), yn ei dro, gynyddu ymddiriedaeth mewn gweithwyr iechyd proffesiynol ac ymlyniad i ofal iechyd a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw astudiaethau blaenorol wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng ACE a pha mor gysurus y mae pobl yn teimlo wrth ddefnyddio lleoliadau meddygol a gofal iechyd. Yma, roedd unigolion â phedwar ACE neu ragor fwy na dwywaith yn fwy tebygol o adrodd am gysur isel wrth ddefnyddio ysbytai a meddygfeydd a deintyddfeydd a bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod â chysur isel wrth ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys o gymharu ag unigolion heb unrhyw ACE. Gall dod i gysylltiad ag ACE effeithio ar reoleiddio emosiynol a lefelau goddefgarwch straen [33], a allai ddylanwadu ar gysur unigolion yn eu profiad gofal. Gall dull wedi'i lywio gan drawma mewn lleoliadau gofal iechyd helpu'r rhai sydd wedi profi adfyd yn ystod plentyndod i deimlo'n fwy cysurus wrth ddefnyddio lleoliadau gofal iechyd [34]. Yn y pen draw, gall gwella cysur hefyd wella ymddiriedaeth ac ymlyniad i ganllawiau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen ymchwil yn y dyfodol i archwilio'r perthnasoedd hyn yn fanylach.

